CYNGOR TREF PORTHMADOG

# COFNODION PWYLLGOR CYLLID AC AMCANION CYFFREDINOL
## Yn y Ganolfan am 19.00 Nos Fawrth Ebrill 28ain 2026

1. **Presennol:**
   Cyng. Gwilym Jones (Cadeirydd), Cyng. Dr. Melfyn Edwards (Is-gadeirydd), Cyng. Carol Hayes, Cyng. Jeremy Davies, Cyng. Glenda Murray, Cyng. Karena Owens, Cyng. Edward Naish, Cyng. Alwyn Gruffydd, Cyng. Sarah Williams, Cyng. Michael Roberts.

   **Absennol:**
   Cyng. Aled Griffith, Cyng. Llywelyn Rhys

   **Ymddiheuriadau.**
   Dim

2. **Archwilio'r cyfrifon.**

(Mantolen a dadansoddiad o'r cyfrifon hyd at 31.3.26)

- Cymeradwyo ac arwyddo'r Ffurflen Flynyddol
  Roedd copi wedi ei yrru i'r cynghorwyr.
  Cyng. Jeremy Davies yn cynnig. Cyng. Karena Owens yn eilio.
  Derbynwyd yn gywir.
- Cymeradwyo ac arwyddo'r Rhestr Asedau
  Roedd copi diweddaraf wedi ei yrru i'r cynghorwyr.
  Cyng. Alwyn Gruffydd yn cynnig. Cyng. Jeremy Davies yn eilio.
  Derbynwyd yn gywir.
- Cymeradwyo'r Fantolen hyd at 31.3.2026
  Roedd copi wedi ei yrru i'r cynghorwyr.
  Cyng. Alwyn Gruffydd yn cynnig. Cyng. Jeremy Davies yn eilio.
  Derbynwyd yn gywir.

3. **Penderfynu ar Lwfans Presenoldeb**:

   Cytunwyd ar y lwfans. Roedd y Clerc wedi gyrru ffurflen i'r cynghorwyr iddynt dderbyn neu wrthod y lwfans.

4. **Cyflog y Clerc.**

Roedd y Clerc ar ris 22 - £16.93 yr awr o 1.6.25 ymlaen. Ni fydd penderfyniad o'r cyflog newydd hyd at Fai 22, 2026.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth ac aros tan y penderfyniad yn Mis Mai.

5. **Biliau i'w talu.**

Dim.

( Mae copi o bob siec ar gael i'w archwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

**6. Penderfynu ar drefniadau Nadolig 2026**

Mae'r Cyng. Karena Owens wedi bod yn brysur yn cynnal cyfarfodydd er mwyn trefnu digwyddiadau ar gyfer noson goleuo Port 2026. Yn cynnwys:

a) Sefydlu grwp o bobl lleol i gynorthwyo gyda'r dasg o godi arian ar gyfer trefniadau Noson Goleuo Port 2026.
Mae dau gyfarfod wedi bod eisoes.

b) Y bwriad i gael coeden Nadolig eletrig yn hytrach nag un naturiol ym Mhorthmadog.
Y clerc i drafod gyda R.J.Electrics.

c) Y bwriad o leoli'r goeden Nadolig ym Mhorthmadog mewn man mwy amlwg na'r Parc.
Y clerc i drafod gyda R.J.Electrics.

d) Y posiblrwydd o symud y noson goleuo i Ddydd Sadwrn a'i wneud yn ddigwyddiad trwy'r dydd er mwyn i fusnesau lleol elwa o gael mwy o bobl yn y dref.
Y clerc i gysylltu gyda R.J Electrics i drafod os ydi'n bosib iddynt fod yn bresennol ar y dydd Sadwrn i sicrhau bod y goleuadau yn mynd ymlaen yn iawn.

Bydd cyfarfod nesaf o'r pwyllgor trefnu noson goleuo Port ar Fai 13.

**Ceisiadau cynllunio:**
Rhif Cais: C26/0240/44/DT
Lleoliad: TYN Y COED Ffordd Y Borth, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UP
Bwriad: Cais arfaethedig am estyniad unllawr ar fyngalo gydag estyniad i'r to.
Dim gwrthwynebiad.

*Elfyn Lewis (Clerc)*
*05.05.2026*

*Elfyn Lewis (Clerc),39 Heol Fadog, Porthmadog,Gwynedd,LL49 9BU*
*Ffôn / Tel : 01766 514210*
*E-bost/ e-mail : clerccyngtreport@gmail.com*